Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe
**Dinas a Sir Abertawe**
**Neuadd y Sir**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r radd yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/01/2015**

## Cyd-destun

Mae awdurdodau unedol Sir Gaerfyrddin i'r gogledd, a Chastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain, yn ffinio ag awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe. Fe'i amgylchynir gan Fae Abertawe a Môr Hafren yn y De. Roedd gan Ddinas a Sir Abertawe boblogaeth o 240,332 yng Ngorffennaf 2014. O'r nifer hon, roedd 63.8% o bobl rhwng 16-64 oed. Abertawe yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru a hi yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru.

Yn ôl ffigurau o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd 65.4% o'r boblogaeth yn cael eu cyflogi ym Mawrth 2014. Mae hyn yn is na'r ganran gyfartalog ar gyfer Cymru, sef 69.5%. Manwerthu (13.8%), Adeiladu (10.1%), Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol (10.1%), Llety a Gwasanaethau Bwyd (8.9%) ac Iechyd (8.4%) yw'r sectorau cyflogaeth mwyaf yn Ninas a Sir Abertawe. Roedd tua 69% o'r boblogaeth yn cael eu cyflogi mewn mentrau micro, bach a chanolig. Fodd bynnag, mae 22.3% o'r boblogaeth yn Ninas a Sir Abertawe yn economaidd anweithgar ond yn chwilio am swydd. Mae hyn ychydig o dan gyfartaledd Cymru, sef 24.5%.

Mae canran y bobl 16-24 oed yn Ninas a Sir Abertawe â chymwysterau NVQ4 ac uwch wedi cynyddu'n raddol o 25.9% yn 2006 i 32.6% yn 2013. Ar yr un pryd, mae canran y bobl 16-64 oed yn Ninas a Sir Abertawe heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng yn raddol o 17.7% yn 2006 i 10.5% yn 2013 yn ôl ffigurau o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 10.6%.

Mae 17% o 147 o ardaloedd yn Ninas a Sir Abertawe yn y 10% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 12% o'r 147 o ardaloedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011). Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ninas a Sir Abertawe yn Townhill, Penderry a Castle. Mae Asesiad Anghenion Strategol 'Un Abertawe' yn 2013 yn nodi bod canlyniadau iechyd gryn dipyn yn waeth yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ninas a Sir Abertawe, a bod amrywiad mawr o ran disgwyliad oes, gyda bwlch o bron i 12 o flynyddoedd ar gyfer dynion, a saith mlynedd ar gyfer menywod o gymharu â'r rheini yn ardaloedd mwy cyfoethog Abertawe.

Yn Ninas a Sir Abertawe, dywed 11.4% o bobl dros dair oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 2001, pan ddywedodd 13.4% o bobl dros dair oed eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am ryw 6% o'r boblogaeth. Mae hyn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 4.4%, ond yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 14%.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Da |
| --- | --- |
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Rhagorol |

**Perfformiad presennol**

Bernir bod perfformiad presennol y bartneriaeth yn dda oherwydd:

- mae dysgwyr yn Abertawe yn cyflawni safonau da;
- mae cyfraddau llwyddo wedi gwella bron i 18 pwynt canran er 2010-2011;
- mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen at gyrsiau eraill uwch neu maent yn defnyddio'u dysgu yn dda i gael gwaith neu i sefydlu eu busnesau eu hunain;
- mae'r bartneriaeth yn darparu cyrsiau sydd wedi'u cysylltu'n dda â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda; ac
- mae'r tîm cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd ar draws y bartneriaeth i gefnogi'r sbectrwm o anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anghenion cymhleth.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn dda oherwydd:

- mae arweinwyr strategol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth gynllunio darpariaeth;
- mae arweinwyr strategol yn cyfleu'u gweledigaeth yn glir, yn craffu ar waith y bartneriaeth yn rheolaidd ac yn cynllunio'n briodol i fodloni senarios y dyfodol;
- mae'r broses sicrhau ansawdd wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth uniongyrchol a dadansoddi, ac mae'n drwyadl, yn agored ac yn onest;
- mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd a gyda sefydliadau eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf, i ddarparu cyrsiau wedi'u targedu'n dda mewn lleoliadau y mae'n hawdd i ddysgwyr eu cyrraedd; ac
- mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i hadnoddau yn dda iawn i gefnogi cyflawniad dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Adolygu a chyfleu'r cyfeiriad strategol newydd ar gyfer y bartneriaeth i ddarparwyr, dysgwyr a phartneriaid strategol

A2 Monitro darpariaeth ar draws y bartneriaeth i sicrhau bod y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn cael eu hymgorffori'n briodol yn y ddarpariaeth

A3 Rhoi gweithdrefnau arsylwi a safoni ar draws y bartneriaeth ar waith i sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu ymhellach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae dysgwyr sy'n oedolion yn Abertawe yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da.

Yn 2012-2013, ychydig o dan 87% oedd y gyfradd lwyddo gyffredinol a gyflawnwyd gan ddysgwyr sy'n oedolion yn Abertawe, sef bron i dri phwynt canran yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol. Roedd dysgwyr yn Abertawe ymhlith y traean uchaf o ddysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru. Maent wedi gwella'u cyfraddau llwyddo bron i 18 pwynt canran er 2010-2011.

Yn 2012-2013, cyflawnodd dysgwyr sy'n oedolion gyfraddau llwyddo o 85% neu'n well mewn dwy ran o dair o'r holl weithgareddau dysgu. Fe wnaeth yr holl ddysgwyr mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, a llawer o ddysgwyr mewn Addysg Sylfaenol i Oedolion, Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gwblhau'u cwrs yn llwyddiannus. Mae dysgwyr yn y sectorau hyn wedi gwella'u cyfraddau llwyddo dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae dysgwyr yn y sectorau Manwerthu a Menter Fasnachol, Addysg a Hyfforddiant, Peirianneg a Sylfaen i Waith wedi cyflawni cyfraddau llwyddo sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol er 2010-2011.

Mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn cyflawni'n dda. Mae dysgwyr sy'n dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ninas a Sir Abertawe yn llwyddo gystal â dysgwyr o rannau eraill o'r ardal. Cyflawnant gyfraddau llwyddo ychydig yn uwch na dysgwyr o ardaloedd tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen at ddysgu pellach ar yr un lefel mewn lefelau dysgu uwch. Mae ychydig mwy o ddynion yn cymryd rhan mewn dysgu i oedolion yn Abertawe o gymharu â rhannau eraill o Gymru. Cyflawnant gyfraddau llwyddo ychydig yn uwch na dysgwyr benywaidd.

Mae dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel ail iaith yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau'u cwrs yn llwyddiannus, ac mae mwyafrif yn symud ymlaen at gyrsiau pellach, fel llythrennedd, neu gyrsiau mewn addysg bellach, fel cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch mewn Gwyddoniaeth, Nyrsio neu'r Gyfraith, Cyfrifyddu neu Beirianneg.

Mae dysgwyr medrau hanfodol yn gwella'u sillafu a'u dealltwriaeth o iaith. Gwna ychydig o ddysgwyr ddefnydd da o eiriaduron i gefnogi'u dysgu. Mae dysgwyr mewn rhifedd sylfaenol yn gwella'u dealltwriaeth o amcangyfrif drwy astudio adeiladu Twnnel y Sianel. Mae dysgwyr medrau hanfodol eraill yn defnyddio technoleg symudol yn dda. Gwnânt ddefnydd da iawn o'r cyfryngau cymdeithasol a chymwysiadau eraill i greu eu e-lyfrau, posteri a ffilmiau. Defnyddiant y cymwysiadau hyn i ymarfer medrau cyfathrebu ysgrifenedig â'i gilydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i wella'u medrau llythrennedd.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dosbarthiadau. Mae dysgwyr yn y dosbarth gwneud gemwaith yn cynhyrchu gwaith cywrain. Mae un o'r dysgwyr hyn bellach yn gwerthu'u gemwaith yn fasnachol. Mae dysgwyr mewn uwchgylchu celfi yn arbrofi'n dda gyda dyluniadau, technegau ac offer gwahanol.

Mewn Dysgu fel Teulu, mae rhieni'n gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd ac yn dysgu medrau Cymraeg newydd. Cânt foddhad yn gweithio tuag at gymhwyster. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn defnyddio'u medrau newydd yn dda i helpu'u plant i ddysgu. Maent wedi gwella eu cyfathrebu gyda'u plant ac wedi dysgu sut i strwythuro chwarae'n fwy effeithiol. Mae rhieni ar y prosiect 'Get Into Gower' wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'u gwaith tîm a'u medrau arwain.

Mae dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd, a'u medrau digidol, mewn ystod o ddosbarthiadau. Mae dysgwyr mewn coginio Eidalaidd wedi deall pwysigrwydd mesur cynhwysion yn ofalus. Mae dysgwyr mewn Crefftau Memrwn wedi datblygu medrau digidol da ochr yn ochr â'u medrau crefft. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o'r e-bost i anfon patrymau a dyluniadau at ei gilydd, maent yn lawrlwytho ac argraffu prosiectau, ac yn trefnu'u gwaith yn dda ar eu cyfrifiaduron. Mewn Medrau Gwnïo Sylfaenol, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau darllen a mesur trwy ddefnydd da o batrymau.

Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau a arsylwyd, fodd bynnag, nid oedd dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd neu rifedd digon. Ychydig iawn o ddysgwyr oedd yn datblygu'u medrau Cymraeg neu'u dealltwriaeth o gyd-destun Cymru.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â dysgu, maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'u dosbarthiadau. Dangosant barch at gyd-ddysgwyr a'u tiwtoriaid. Gweithiant yn dda â'i gilydd ac maent yn cefnogi'i gilydd i wneud cynnydd. O ganlyniad, mae presenoldeb yn dda yn y mwyafrif o sesiynau, ac mae cyfraddau cwblhau yn uchel.

Mae bron pob dysgwyr yn magu hyder yn ystod eu cyrsiau. Maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â buddion eu dysgu a'r medrau y maent wedi'u dysgu. Defnyddiant y medrau y maent wedi'u dysgu yn y dosbarth yn dda iawn mewn cyd-destunau eraill. O ganlyniad i fynychu dosbarth gemwaith, mae un dysgwr â nam ar y golwg bellach yn helpu pobl eraill â nam ar eu golwg gyda'r grefft, tra bod un arall wedi datblygu medrau busnes da a chraffter masnachol, ac, o ganlyniad, mae wedi sefydlu ei busnes ei hun. Mae rhieni a phlant o ddosbarthiadau Dysgu fel Teulu yn parhau â gweithgareddau gartref. Maent yn gwella cyfathrebu'r teulu ac yn strwythuro chwarae gyda'u plant yn fwy effeithiol. Mae hyn yn arwain at welliant yn eu perthnasoedd o fewn eu teuluoedd. Mae dau ddysgwr a gwblhaodd cwrs blodeuwriaeth yng Ngholeg Gŵyr wedi sefydlu'u busnes eu hunain erbyn hyn.

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu. Maent yn gwybod â phwy i drafod unrhyw faterion ynghylch diogelwch. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mynegodd dysgwyr bryder ynglŷn â gadael y lleoliad yn y nos ac ynglŷn â'r camddefnydd o leoedd parcio i'r anabl ar rai safleoedd.

Mae llawer o ddysgwyr yn adrodd bod eu hiechyd a'u lles yn cael eu hyrwyddo drwy'r cyswllt cymdeithasol sydd ganddynt mewn dosbarthiadau ac wrth ddysgu medrau newydd. Mewn llawer o'r dosbarthiadau coginio, mae dysgwyr yn cael dealltwriaeth well o fwyta a byw'n iach. Mae dysgwyr ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn datblygu medrau coginio da. Maent yn gwella'u dealltwriaeth ynglŷn â bwyta'n dda; ac yn dysgu rheoli hylendid personol a byw'n annibynnol. Mae ychydig o'r dysgwyr hyn wedi symud ymlaen i fentora pobl ifanc eraill mewn gofal.

Mae dysgwyr yn mynegi'u barn yn glir drwy arolygon ac ystod o fforymau dysgu, yn cynnwys fforwm rhanbarthol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gallu dylanwadu ar y modd y caiff cyrsiau eu cyflwyno a helpu i wella'u hansawdd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe yn darparu ystod eang o gyrsiau a llwybrau dilyniant, sy'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion lleol a rhanbarthol yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol, fel llythrennedd, rhifedd a medrau llythrennedd digidol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i leihau dyblygu. Mae'n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn effeithlon i nodi ystod a math y ddarpariaeth sydd ei hangen yn y meysydd gwahanol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion grwpiau blaenoriaeth a sectorau swydd sy'n datblygu.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Abertawe. Mae'n darparu cyrsiau ar lefelau priodol i helpu dysgwyr gael achrediad addas er mwyn paratoi a mynd i mewn i fyd gwaith. Mae cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) ac Addysg Sylfaenol Oedolion (ASO) yn helpu dysgwyr i wella'u medrau iaith, llythrennedd a rhifedd, tra bod cyrsiau byr, fel Dewch Ar-lein Abertawe, yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u medrau TGCh i gyflawni tasgau hanfodol ar-lein, fel defnyddio'r safle cyffredinol paru â swydd neu drethu car.

Mae cyrsiau eraill wedi'u targedu'n briodol at helpu dysgwyr ddatblygu medrau meddal i fynd yn ôl i mewn i ddysgu, neu i fynd ar drywydd diddordebau sy'n cefnogi'u lles. Mae cyrsiau Dysgu fel Teulu yn effeithiol o ran helpu rhieni i ddeall beth a sut y caiff eu plant eu haddysgu yn yr ysgol fel eu bod yn gallu helpu'u plant gartref. O ganlyniad, mae llawer o rieni'n symud ymlaen at gyrsiau eraill sydd o ddiddordeb, ac maent yn cynyddu'u gobaith o gael swydd. Yn ogystal, mae'r bartneriaeth yn darparu cyrsiau wedi'u teilwra'n benodol at anghenion dysgwyr sy'n fwy agored i niwed i'w helpu, er enghraifft i ddatblygu arferion bwyta'n iach ar gyllideb gyfyngedig.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ymarfer medrau hanfodol o fewn cyd-destun y pwnc. Er enghraifft, mewn sesiynau coginio, mae tiwtoriaid yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i gyfrifo, pwyso a mesur cynhwysion ar gyfer ryseitiau, yn ogystal â dilyn y cyfarwyddiadau mewn ryseitiau.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig nifer o gyrsiau lle bydd dysgwyr yn datblygu'u dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae llawer o

ddosbarthiadau SSIE yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant a threftadaeth Cymru a Phrydain. Mae cyrsiau, fel uwchgylchu a strimio, a phrosiectau lle bydd trigolion yn dysgu sut i wella a chynnal eu hardal leol, yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u dealltwriaeth o faterion amgylcheddol a medrau entrepreneuraidd.

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi darparu hyfforddiant i diwtoriaid i wella'u medrau Cymraeg er mwyn gallu hyrwyddo'r Gymraeg mewn dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae tiwtoriaid yn hyrwyddo'r iaith yn parhau'n anghyson. Mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn cyfeirio mewn sesiynau at ddiwylliant a threftadaeth Cymru lle bo'n briodol i'w pwnc. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi olrhain eto pa mor dda y mae'r agweddau hyn wedi'u hymgorffori yn y ddarpariaeth.

Yn y flwyddyn academaidd gyfredol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth yn cyfeirio dysgwyr mwy datblygedig yn y Gymraeg at ddarparwyr eraill yn yr ardal er mwyn gwella'u Cymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth bynciol dda iawn gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ac maent yn cyfleu'u brwdfrydedd am y pwnc yn dda i'r dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio'u sesiynau yn effeithiol i roi ystyriaeth dda i'r cynlluniau gwaith, strategaethau llythrennedd a rhifedd ac ystod anghenion a diddordebau dysgwyr. Cynlluniant wersi â rhediad da iddynt, a gwnânt ddefnydd da o waith mewn parau, gwaith grŵp a gwaith annibynnol i ennyn diddordeb dysgwyr a datblygu'u medrau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o weithgareddau ac adnoddau yn effeithiol i ysgogi a herio dysgwyr. Mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddefnyddio technoleg symudol yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol dysgwyr ar gyrsiau achrededig a chyrsiau heb eu hachredu yn dda i ddeall nodau a dyheadau dysgwyr. Helpant ddysgwyr i gynllunio targedau tymor byr a thymor hwy, a bydd tiwtoriaid a dysgwyr yn monitro'r rhain yn rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn helpu ac yn cymell dysgwyr i aros ar y rhaglen a chyflawni'u nodau.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu adborth clir i ddysgwyr ar eu cynnydd. Ar gyrsiau achrededig, mae tiwtoriaid yn asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd yn erbyn y meini prawf ac yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol. Mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i ddefnyddio technoleg symudol i gofnodi'u cynnydd dros gyfnod o amser. Er enghraifft, mewn blodeuwriaeth, mae dysgwyr yn cofnodi camau datblygu trefniant blodau er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol a'i asesu.

Mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn sesiynau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth y bartneriaeth yn hyrwyddo ystod dda o gyrsiau mewn iechyd a lles, gan gynnwys pobi, coginio Eidalaidd, ymwybyddiaeth ofalgar a darpariaeth Dysgu fel Teulu. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwella'u datblygiad personol. Er enghraifft, yn ystod "Cwrs Coginio Dad", fe wnaeth dysgwyr wella medrau rhianta gan gynnwys hyrwyddo bwyta'n iach o fewn y teulu a gwella presenoldeb plant yn yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau a gwasanaethau i gefnogi dysgwyr. Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd da i ddysgwyr am gymorth sydd ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn y llawlyfr dysgwyr. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfraddau cadw da ar gyrsiau.

Mae dysgwyr coleg rhan-amser yn gallu defnyddio'r holl gyfleusterau ar draws pob safle. Fodd bynnag, nid yw cyfleusterau llyfrgell mewn canolfannau allgymorth ar gael gyda'r nos bob amser. Mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd i leiafrif o ddysgwyr astudio. Mae'r ddarpariaeth adnoddau rhaglenni ar-lein yn helpu dysgwyr i ddal i fyny'n llwyddiannus â gwersi y maent wedi'u colli, i gael adnoddau ychwanegol, i wylio fideos cysylltiedig ac i fynd at ddolenni ar y we.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith gan ddarparwyr y bartneriaeth. Maent yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â'r archwiliadau diogelu angenrheidiol. Mae polisïau bwlio ac aflonyddu gan bob un o ddarparwyr y bartneriaeth. Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn rhoi gwybod i ddysgwyr yn y cyfnod sefydlu ac yn y llawlyfrau dysgwyr am yr ymddygiad a ddisgwylir. Mae polisïau cwyno yn eu lle gan bob un o'r partneriaid unigol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn ymwybodol o sut i wneud cwyn.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd ag asesiadau cychwynnol, a lle bo'n briodol, asesiad diagnostig. Mae staff yn cyfeirio dysgwyr i gael cymorth dysgu ar adegau priodol cyn ac yn ystod cyrsiau wrth i anghenion ddod yn amlwg. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth yn gallu ymateb yn dda iawn i'r sbectrwm o anghenion dysgu. Mae'r tîm cymorth dysgu'n gweithio'n effeithiol iawn ar draws y ddarpariaeth i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, y mae anghenion cymhleth gan lawer ohonynt. Mae hyn yn helpu'r dysgwyr hyn i aros mewn dysgu. Mae hon yn nodwedd ragorol ar y ddarpariaeth.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol i gynnwys dysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae'n gweithio'n dda i recriwtio dysgwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r rhain sy'n dioddef profiadau bywyd anodd, fel bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol a digartrefedd. Mae'r bartneriaeth wedi nodi mai dim ond 35% o ddynion sy'n mynychu dosbarthiadau dysgu i oedolion. Mae'n cynnig cyrsiau penodol, fel medrau hanfodol yn yr amgylchedd a medrau gwaith coed, i ddenu dysgwyr ifanc sy'n fechgyn er mwyn gwella'u cyfleoedd cyflogaeth.

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar waith gan yr holl ddarparwyr. Cynhyrchant adroddiadau cynnydd blynyddol er mwyn monitro gweithredu ac effaith y cynlluniau.

Mae pob tiwtor yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac anabledd fel rhan o'r cyfnod sefydlu. Mae tiwtoriaid yn talu sylw da i gydraddoldeb ac mae'r awyrgylch yn groesawgar a pharchus ym mhob un o'r sesiynau. Mae'r llawlyfrau dysgwyr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau cydraddoldeb, ac mae canllaw y cwrs Addysg Sylfaenol Oedolion yn defnyddio cynlluniwr blwyddyn diwylliannol i hyrwyddo amrywiaeth yn dda.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o leoliadau yn cynnwys safleoedd colegau, ysgolion, neuaddau pentref a chanolfannau cymuned, gan alluogi bron pob dysgwr i ddilyn cyrsiau yn agos at ei gartref/chartref. Yn y mwyafrif o achosion, cynhelir y dysgu mewn lleoliadau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hawdd i ddysgwyr eu cyrraedd. Mae'r coleg yn annog dysgwyr oedolion yn y gymuned i gyfrannu at benderfynu ar yr offer sydd ei angen yn y dosbarth ac mae'n eu gwahodd i gyflwyno cynigion i brynu offer neu gelfi er mwyn gwella'u hamgylchedd dysgu.

Mae adnoddau dysgu ym mhob un o'r lleoliadau bron o safon dda, a cheir cyfleusterau TGCh da yn y rhan fwyaf o leoliadau. Er enghraifft, mae'r holl bartneriaid wedi prynu tabledi electronig ac maent wedi'u defnyddio'n effeithiol i ymgysylltu a chymell dysgwyr â lefelau llythrennedd isel. Fodd bynnag, mae materion yn ymwneud â chysylltedd a chydweddoldeb meddalwedd yn atal cyflwyno nifer fach o gymwysiadau mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau TGCh. Nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn gwneud defnydd digon da o'r dechnoleg sydd ar gael i gefnogi'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr strategol yn darparu gweledigaeth a gwerthoedd clir ar gyfer y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Rhoddir ffocws clir ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn benodol, ceir ffocws cadarn ar leihau nifer y bobl sydd heb gymwysterau er mwyn mynd i'r afael â thlodi.

Mae Grŵp Strategol Partneriaeth Dysgu Abertawe wedi sefydlu cylch gwaith newydd yn ddiweddar. Mae'n datblygu cynllun strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng ngoleuni cyfyngiadau cyllidebol er mwyn darparu ffocws a strategaeth glir i'r dyfodol ar gyfer y bartneriaeth, yn unol ag Asesiad a Chynllun Anghenion 'Un Abertawe'.

Mae strwythur cyfarfodydd effeithiol ar waith, sy'n sicrhau bod Grŵp Strategol Partneriaeth Dysgu Abertawe yn monitro ac yn herio gwaith y bartneriaeth yn effeithiol. Caiff cofnodion o gyfarfodydd grwpiau strategol a gweithredol y bartneriaeth eu cofnodi a'u monitro'n briodol. Mae'r cofnodion yn datgan camau sydd i'w cymryd yn glir, erbyn pryd a chan bwy.

Mae arweinwyr ar bobl lefel ar draws y bartneriaeth yn dangos ymrwymiad cadarn i weithio gyda'i gilydd er budd holl aelodau'r gymuned, er mwyn dileu unrhyw ddyblygu darpariaeth a darparu llwybrau dilyniant priodol i ddysgwyr. Mae rhannu arfer dda a chymorth yn nodwedd gadarn yn y bartneriaeth.

Mae gan aelodau etholedig a swyddogion, llywodraethwyr ac aelodau bwrdd wybodaeth dda am yr anghenion a'r blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Maent yn cefnogi'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a'i chyfraniad at wella bywydau pobl yn y gymuned yn dda. Darparant graffu effeithiol ar gyfer y bartneriaeth a'r darparwyr o fewn y bartneriaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanasesu. Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu gan bartneriaid i wella perfformiad. Mae hefyd yn gwneud defnydd da o arolygon dysgwyr i arfarnu'r ddarpariaeth.

Mae partneriaid unigol yn cynnal arsylwadau o'r addysgu er mwyn arfarnu ei ansawdd. Mae partneriaid yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i gynnal arsylwadau o staff newydd. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi sefydlu gweithdrefnau arsylwi a safoni ffurfiol eto ar draws y partneriaid. Mae wedi cynnal ymarferiad peilot buddiol i arsylwi a safoni ar y cyd mewn carchar lleol, ac mae'n bwriadu cyflwyno hyn fesul cam ar draws y bartneriaeth yn y dyfodol agos.

Mae arfarniad y bartneriaeth ei hun o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gyson â barnau'r tîm arolygu.

Gwna'r bartneriaeth ddefnydd effeithiol o ddata cyhoeddedig i arfarnu ei pherfformiad ac i gymharu ei deilliannau â rhai partneriaethau eraill. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio ar gyfer gwella ar lefel cwrs. Mae hefyd yn gwneud defnydd da o'i chanlyniadau o arolwg Llais y Dysgwr Cymru i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae partneriaid yn gweithio'n dda â'i gilydd i rannu arfer dda a dyrannu meysydd cyfrifoldeb. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu cymorth effeithiol i'r bartneriaeth i arfarnu perfformiad a rhoi cynlluniau gwella ar waith. Mae'n gweithio'n dda â phartneriaid eraill i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o adroddiad arolygu 2010. Fodd bynnag, nid yw'r argymhelliad o ran defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth wedi'i gwblhau eto, ac nid yw'r deilliannau mesuradwy yn y Cynllun Datblygu Ansawdd mewn perthynas â hyn yn ddigon penodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae dealltwriaeth dda iawn gan aelodau'r bartneriaeth o'r nod i sicrhau bod pob oedolyn yn yr ardal yn cyrraedd ei botensial llawn. Mae'r nod hwn hefyd yn cefnogi agenda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe i fynd i'r afael â thlodi a datblygu'r economi leol yn dda.

Mae partneriaid yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd. Maent yn rhoi anghenion y dysgwr, a'r maes, wrth graidd yr hyn a wnânt ac maent yn ceisio gwella deilliannau a chyfleoedd bywyd ar gyfer dysgwyr yn barhaus. Trafodant faterion yn agored ac yn effeithiol, ac maent yn eu datrys mewn modd amserol.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn ag amrywiaeth eang o sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector. Ceir lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng y bartneriaeth a'r asiantaethau hyn, a gweithiant yn effeithiol â'i gilydd i gynllunio darpariaeth ac osgoi dyblygu. Mae'r perthnasoedd da hyn yn eu galluogi i wella ymgysylltiad dysgwyr a chymunedau eraill yn yr ardal. Rhoddir pwyslais ar wella hyder a medrau bywyd, a chwalu rhwystrau rhag dysgu, er enghraifft trwy ddarparu cludiant i ddysgwyr i leoliadau na fyddent fel arall yn gallu'u cyrraedd o bosibl.

Un cryfder pwysig yn y bartneriaeth yw cynnwys Cymunedau yn Gyntaf yn rhagweithiol. O ganlyniad i'r gwaith partneriaeth da iawn hwn, mae llawer o ddysgwyr o feysydd Cymunedau yn Gyntaf yn symud ymlaen o gyrsiau byr i ddysgu pellach o fewn y bartneriaeth. Mae hon yn nodwedd ragorol ar weithio mewn partneriaeth. Mae dysgwyr o gwrs Dysgu fel Teulu wedi symud i gwrs 10 wythnos "Get Into Gower", sy'n ceisio annog rhieni i ddysgu am yr ardal leol a beth sydd ganddi i'w gynnig iddyn nhw a'u plant. Mae dysgwyr ar y cwrs hwn yn gweithio tuag at gymhwyster medrau hanfodol ac maent yn cynllunio'u dilyniant i gyrsiau achrededig pellach o fewn y bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth hon yn gweithio'n dda â'r bartneriaeth ddysgu ranbarthol a phartneriaethau DOG eraill yn Ne Orllewin Cymru a'r Canolbarth. Mae gweithgareddau wedi cynnwys datblygu strategaeth cynnwys dysgwyr, cynllunio digwyddiadau ymgynghori â dysgwyr gyda'i gilydd, cyflwyno prosiect medrau hanfodol rhanbarthol a dyfeisio Pecyn Cymorth Cymraeg i'w gyhoeddi ar wefan y bartneriaeth ddysgu ranbarthol. Mae'r bartneriaeth wedi defnyddio'r pecyn offer ar gyfer hyfforddi tiwtoriaid i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn eu haddysgu. Hyd yma, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith yr hyfforddiant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn meddu ar gymwysterau priodol. Mae cymwysterau arbenigol gan bob un o'r tiwtoriaid ASO ac SSIE. Mae'r defnydd o swyddi tiwtoriaid ffracsiynol yn y ddarpariaeth SSIE ac ASO yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio, cyflwyno ac ansawdd y rhaglenni dysgu hyn. Gwna'r bartneriaeth ddefnydd da o swyddi cymorth dysgwyr a rennir er mwyn gwella cyfraddau cadw a llwyddo.

Mae'r bartneriaeth yn cydlynu blaenoriaethau hyfforddi yn dda, ond nid yw'n mynd ati'n ffurfiol i adolygu data am gyfraddau cyfranogi, nac effaith hyfforddiant ar addysgu a dysgu. Mae digwyddiadau hyfforddi'r bartneriaeth yn galluogi darparwyr unigol i elwa ar ddatblygiad proffesiynol a drefnir gan sefydliadau eraill o fewn y bartneriaeth. Gwna'r bartneriaeth ddefnydd da o gyfleoedd ariannu allanol i gefnogi datblygiad staff a rhannu arfer orau. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth wedi defnyddio grant 'technoleg ar gyfer dysgu' gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth i hyfforddi tiwtoriaid medrau hanfodol ar draws y bartneriaeth i integreiddio'r defnydd o dechnoleg symudol mewn dosbarthiadau.

Mae trefniadau priodol ar waith gan bob un o'r partneriaid i fonitro maint dosbarthiadau a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â niferoedd dosbarthiadau pan fo angen. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni anghenion dysgwyr nad ydynt yn dod o dan y meysydd blaenoriaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, er enghraifft datblygu cyrsiau 'niwtral o ran cost' a chlybiau dysgu 'hunangyfeiriedig'.

Gwneir defnydd da o leoliadau cymunedol gan y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu addasrwydd ei hadeiladau a'i chyfleusterau ar gyfer y gweithgareddau y mae'n eu darparu. Gweithia'r bartneriaeth yn effeithiol fel rhan o'r bartneriaeth ddysgu ranbarthol i gael a rheoli cyllid o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft Medrau Hanfodol yn y Gweithle a phrosiectau'r Gronfa Loteri Fawr. Mae cyfraddau llwyddo yn dangos bod y bartneriaeth yn defnyddio'i hadnoddau yn dda i gefnogi dysgwyr.

Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda, ac mae'r bartneriaeth yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru, Llais y Dysgwr Cymru, i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr roi gradd i berfformiad eu darparwr.

Llenwyd yr arolwg gan 860 o ddysgwyr sy'n oedolion yn Abertawe. Roedd 200 o ymatebwyr yn ddynion a 658 o ymatebwyr yn fenywod, sy'n cynrychioli 31% o ddysgwyr gwrywaidd yn y bartneriaeth a 69% o ddysgwyr benywaidd yn y bartneriaeth. Roedd y dysgwyr yn ddysgwyr hŷn yn bennaf, yn 45 oed ac yn hŷn. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn a dywedodd 10% o ymatebwyr eu bod yn cael anawsterau dysgu. Roedd y niferoedd mwyaf o ymatebwyr yn dilyn cyrsiau yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac addysg sylfaenol oedolion.

Roedd 70% o ymatebwyr yn ystyried bod y bartneriaeth yn dda iawn ar y cyfan. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 64%. Roedd 22% arall yn ystyried bod y bartneriaeth yn dda ar y cyfan. Roedd 96% o ymatebwyr yn credu bod eu cwrs yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 93%.

Roedd canran yr ymatebwyr yn rhoi sgôr da iawn i'r bartneriaeth yn uwch na chyfartaledd y sector ar draws pob un o'r pum thema allweddol ac ar draws yr holl gwestiynau yn yr arolwg. Roedd 94% yn ystyried bod yr addysgu a'r dysgu yn dda neu'n dda iawn.

Rhoddodd ymatebwyr sgôr da iawn i'w pynciau mewn chwech o'r naw maes pwnc yn y sector. Roedd manwerthu a menter fasnachol, hamdden, teithio a thwristiaeth, ac addysg sylfaenol oedolion ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r sector. Fodd bynnag, roedd iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal ymhell islaw cyfartaledd y sector.

Mae'r arolwg hefyd yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig – rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Mae'r bartneriaeth yn cyflawni sgorau 'da iawn' sy'n well na chyfartaledd y sector ar gyfer boddhad cyffredinol ar draws yr holl ddemograffeg allweddol bron. Rhoddodd dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sgôr islaw cyfartaledd y sector i'r bartneriaeth. Yn yr un modd, mae canran yr ymatebwyr ar draws yr holl ddemograffeg allweddol sy'n dweud bod eu cyrsiau yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl yn uwch yn gyffredinol na'r cyfartaledd cenedlaethol neu'n agos ato.

Derbyniodd y bartneriaeth ryw 500 o sylwadau air am air. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u tiwtoriaid a safon y paratoi a'r cymorth a dderbyniant ganddynt. Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol hefyd ynglŷn â'r medrau y maent wedi'u dysgu a buddion eu dysgu.

Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr o'r farn fod angen gwneud unrhyw welliannau i'w dosbarth na'u dysgu. Serch hynny, awgrymwyd gwelliannau gan ychydig o ymatebwyr, gan gynnwys;

- amseru dosbarthiadau;
- gwneud yn siŵr bod dysgwyr unigol mewn dosbarthiadau lefel cymysg yn cael cymorth gwell i wneud cynnydd;
- gwella'r wybodaeth am gyrsiau a'r arweiniad ynglŷn â chyrsiau;
- addasrwydd a chynllun ystafelloedd ar gyfer dysgu ieithoedd;
- gwella trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i ddysgwyr am amserau dechrau a gorffen; a
- gwella'r profiad o adael y lleoliad ar ddiwedd y dosbarth.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Rob Osborne | Arolygydd Tîm |
| Mari Morgan | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Denise Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nicola Campbell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Deborah Tebbutt | Arolygydd Cymheiriaid |
| Maggie Dix | Enwebai |